Wales | CVC circuit riders cylchredwyr technoleg CGS | Cymru

Taflen Adnoddau CVC CR09

Gwe-letya CGGSB

Mae'r prosiect Cylchredwyr Technoleg CGS yn darparu gweithdai cyfeillgar ac anffurfiol ar amryw o bynciau'n ymwneud â thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Nod y rhaglen **Cyfathrebu-123**, un o weithgareddau'r Cylchredwyr Technoleg, yw helpu grwpiau gwirfoddol a mudiadau cymunedol i gyfathrebu'n fwy effeithiol.

Beth yw gwe-letya?

Yn syml, casgliad o dudalennau cydgysylltiol a ddyluniwyd i gyflwyno gwybodaeth yw gwefan. Mae angen storio neu letya'r tudalennau yma ar weinydd gwe, a gysylltir i'r rhyngrwyd ar gyflymdra uchel, ac mae hyn yn galluogi i'r wybodaeth gael ei weld yn fyd-eang trwy gyfrwng porwr, megis Internet Explorer. Fel arfer byddwch yn rhentu eich bwlch i letya eich gwefan, gan ei fod yn gyfleuster arbenigol a chostus i'w brynu.

Beth yw enw parth?

Defnyddir enw parth i ddod o hyd i wefan ar y rhyngrwyd. Fel arfer cyfeirir ato fel cyfeiriad gwefan (e.e. www.bbc.co.uk, www.pavs.org.uk).

Gweinydd gwe CGGSB

Mae'r gwasanaeth Gwe-letya a ddarperir gan CGGSB yn wasanaeth di-dâl a sylfaenol iawn. Mae'n bwysig nodi nad yw'n bosib i CGGSB warantu bydd y gwasanaeth ar gael bob amser. Sicrhewch, os gwelwch yn dda, eich bod yn creu ffeiliau wrth gefn a'ch bod yn eu cadw mewn lle saff.

Mae'r gost o We-letya'n amrywio tipyn, a weithiau daw'n rhan o becyn e-bost, mynediad band llydan atb., felly mae'n anodd rhoi amcan o'r pris. Gall fod am ddim, neu hyd at gannoedd y flwyddyn, gan ddibynnu ar y cyflenwr a'ch anghenion chi.

CGGSB yn prynu eich cyfeiriad gwe(enw parth)

Os ydych yn dymuno, gallwn brynu eich enw parth ar eich rhan trwy ein cyflenwr dewisedig 123REG (PIPEX), a'r pris ar hyn o bryd yw £6.09 am enw .org.uk am 2 flynedd. Mae'n rhaid i ni dderbyn eich tâl cyn i ni ei brynu.

Gan ddibynnu ar y cyflenwr, weithiau gellir cofrestru'r Enw Parth am ddim fel rhan o becyn, neu gall gostio hyd at £30.

Os ydych yn dymuno elwa o'r rhaglen cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Tîm Cylchredwyr ar 01437 771197 neu e-bostiwch contact@walescvccircuitriders.org.uk

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1 Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Amodau lletya gyda CGGSB

Os fyddwch yn penderfynu lletya eich gwefan gyda CGGSB, bydd yr amodau canlynol yn gymwys.

1. Person Enwebedig y Mudiad/Grŵp.

Mae'n rhaid i bob Mudiad/Grŵp ddarparu manylion llawn person cyswllt enwebedig, a ddirprwywyd ganddynt i fod yn gyfrifol am yr wybodaeth sy'n gynwysedig ar eu gwefan. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni gael enw a manylion cyswllt arweinydd y grŵp, y cadeirydd ayb., i'w defnyddio os na fedrwn gysylltu â'r sawl sy'n gyfrifol am y wefan.

2. Gofynion Cyfreithiol.

Mae'n rhaid i bob Mudiad/Grŵp sy'n ymwneud â'r prosiect hwn lwytho cynnwys priodol a derbyniol i fyny i'w gwefannau'n unig. Bydd llwytho deunydd anghyfreithlon i fyny yn arwain at gau'r wefan i lawr, a gall achosi i weinydd cyfan CGGSB i gael ei gau i lawr, a bydd hyn yn effeithio ar ddwsinau o wefannau grwpiau yn ogystal â'ch gwefan chi.

3. Cydnabyddiaeth ar y Wefan.

Mae'n un o ofynion Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) bod yn rhaid i'r holl ddeunydd a baratowyd gyda chymorth grant arddangos y logo Ewropeaidd perthnasol. Mae'n rhaid i bob gwefan gynnwys dolen o'u Hafan i'r dudalen Gydnabyddiaeth a ddarparwyd gan CGGSB.

Os ydych yn dymuno elwa o'r rhaglen cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Tîm Cylchredwyr ar 01437 771197 neu e-bostiwch contact@walescvccircuitriders.org.uk